**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

# Y BIL MENTER A DIWYGIO RHEOLEIDDIO – PWERAU I GYNNWYS DARPARIAETHAU MACHLUD AC ADOLYGU MEWN IS-DDEDDFWRIAETH

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol

1. “Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau’r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy’n ymwneud â phŵer i Weinidogion Cymru gynnwys cymalau machlud ac adolygu mewn is-ddeddfwriaeth, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”

## Cefndir

2. Mae’r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol uchod wedi’i gyflwyno gan Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog (“RhS”) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y “Cynulliad Cenedlaethol”). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ger bron o dan RhS29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os ceir darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil Seneddol y DU at bwrpas sy’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu sy’n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

3. Cyflwynwyd y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio (y “Bil”) yn Nhŷ’r Cyffredin ar 23 Mai 2012. Gellir gweld y Bil yn:

http://services.parliament.uk/bills/2012-13/enterpriseandregulatoryreform.html

## Crynodeb o’r Bil a’i amcanion Polisi

4. Noddir y Bil gan yr Adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau (“BIS”). Prif bwrpas y Bil yw annog twf tymor hir a symleiddio’r rheoliadau. Amcanion y Bil yw:

- ad-drefnu system y tribiwnlysoedd cyflogaeth, a gweddnewid y drefn unioni anghydfodau;
- gwneud y rheolau gorfodi cystadleuaeth yn fwy effeithiol ac effeithlon a gwneud y marchnadoedd yn fwy cystadleuol trwy gryfhau’r drefn a’i gwneud yn gyflymach ac yn fwy rhagweladwy er lles busnesau;
- pennu pwrpas Banc Buddsoddi Gwyrdd y DU a gofalu ei fod yn annibynnol;
- cryfhau’r fframwaith ar gyfer pennu cyflogau cyfarwyddwyr trwy gyflwyno pleidleisiau gorfodi;
- ymestyn y cynllun Awdurdod Sylfaenol, lleihau’r baich archwiliadau ar fusnesau a chryfhau’r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cymalau machlud rheoliadau;

- diddymu deddfwriaeth ddiangen, gan leihau'r baich ar fusnesau a dinasyddion.

5. Mae'r Bil yn ymestyn i Gymru.

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir caniatâd ar eu cyfer**

6. Y darpariaethau perthnasol yw'r darpariaethau machlud ac adolygu yng nghymal 49 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd gerbron y Senedd (cymal 50 o'r Bil fel y'i diwygiwyd mewn Pwyllgor Biliau Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin, HC Bill 61).

7. Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf Ddehongli 1978.

8. Effaith y diwygiad hwn yw, pan fo Deddf Seneddol neu Ddeddf neu Fesur y Cynulliad yn rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i unrhyw berson ac eithrio Gweinidogion yr Alban, y *caiff* is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pŵer hwnnw gynnwys darpariaeth fachlud neu adolygu (ond nid oes rhaid iddi gynnwys darpariaeth o'r fath).

9. Darpariaeth fachlud yw darpariaeth sy'n peri bod yr is-ddeddfwriaeth yn dod i ben ar ddiwedd cyfnod a bennir yn yr is-ddeddfwriaeth honno. Darpariaeth adolygu yw darpariaeth sy'n gwneud yn ofynnol bod gwneuthurwr yr is-ddeddfwriaeth yn adolygu ei heffeithiolrwydd o fewn terfynau amser a bennir yn yr is-ddeddfwriaeth honno.

10. Os yw'r is-ddeddfwriaeth yn diwygio is-ddeddfwriaeth arall, caiff yr is-ddeddfwriaeth sy'n diwygio gynnwys darpariaeth fachlud neu adolygu mewn perthynas â'r is-ddeddfwriaeth a ddiwygir.

11. Pe bai'r Bil yn cael ei basio, byddai'r holl bwerau a dyletswyddau i wneud is-ddeddfwriaeth sydd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Senedd y DU neu Fesur neu Ddeddf y Cynulliad yn cwmpasu'r *pŵer* i gynnwys darpariaeth fachlud neu adolygu o fewn yr is-ddeddfwriaeth honno.

12. Bydd hyn yn gymwys mewn perthynas â phwerau presennol i wneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddfau y DU neu Ddeddfau neu Fesurau y Cynulliad yn ogystal â'r pwerau hynny a gaffaelir gan Weinidogion Cymru ar ôl pasio'r Bil. Y rheswm am hynny yw fod cyfeiriad at yr adran 14A newydd (y bydd cymal 50 o'r Bil yn ei mewnosod yn y Ddeddf Ddehongli) yn cael ei ychwanegu at baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Ddehongli 1978. Mae'r paragraff hwnnw yn cynnwys y rhestr o'r darpariaethau yn y Ddeddf Ddehongli sy'n gymwys i Ddeddfau'r DU a Deddfau a Mesurau y Cynulliad *pa bryd bynnag y cânt eu pasio*.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad**

13. Byddai modd i Ddeddf y Cynulliad gyflawni cyfran sylweddol o'r hyn y mae'r ddarpariaeth yn y Bil yn ei wneud, drwy ddiwygio holl bwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth, sy'n dod o fewn

cymhwysedd y Cynulliad, fel bod y pwerau hynny'n cynnwys y gallu i gynnwys darpariaethau machlud ac adolygu yn yr is-ddeddfwriaeth a wneir drwy ddefnyddio'r pwerau a'r dyletswyddau hynny.

14. Fodd bynnag, er mwyn gwneud yn gwbl eglur i ddefnyddwyr deddfwriaeth pa bryd y mae'r pŵer i gynnwys cymal machlud neu adolygu yn gymwys, byddai angen darpariaeth ddeddfwriaethol lawer mwy beichus na'r ddyfais syml o ddiwygio'r Ddeddf Ddehongli.

15. Pe bai "Deddf Ddehongli" y Cynulliad yn cynnwys darpariaeth gyffredinol gyffelyb i hon, ni allai gael effaith ac eithrio mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth a ddeuai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Byddai angen, felly, i ddefnyddwyr deddfwriaeth ddarganfod a yw darn penodol o ddeddfwriaeth o fewn cymhwysedd y Cynulliad ai peidio, cyn y gallent wybod a ellid cynnwys cymal machlud neu adolygu ynddo ai peidio.

16. Yr unig ffordd o sicrhau eglurder ynglŷn â pha bryd y gellid cynnwys cymal machlud neu adolygu fyddai rhestru, mewn "Deddf Ddehongli" y Cynulliad, yr holl bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth y gellid cynnwys cymal o'r fath ynddynt. Byddai hynny'n creu darn maith iawn o ddeddfwriaeth, y byddai angen adnoddau helaeth i'w ddrafftio a'i basio.

17. Yn ychwanegol, mae'r darpariaethau machlud ac adolygu sydd yn y Bil yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth sydd gan Weinidogion Cymru ond nad ydynt yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae eu heffaith, felly, yn fwy cynhwysfawr nag effaith y darpariaethau y gellid eu gwneud mewn Deddf y Cynulliad.

18. Gan hynny, mae rhesymau da dros ddefnyddio'r Bil i wneud y darpariaethau hyn ac i'w cymhwyso i bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth.

19. Mae'n werth nodi hefyd mai darpariaethau galluogi yw'r darpariaethau sydd dan sylw: maent yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i gynnwys darpariaethau machlud ac adolygu mewn is-ddeddfwriaeth, ond caiff Gweinidogion Cymru benderfynu peidio ag arfer y pwerau hynny. Yn ychwanegol, fel rheol, byddai arfer y pwerau hyn gan Weinidogion Cymru yn destun craffu gan y Cynulliad, naill ai'n unol â gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad neu'r weithdrefn negyddol.

**Goblygiadau ariannol**

20. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i gymhwyso'r darpariaethau machlud ac adolygu mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Byddai goblygiadau ariannol gweithredu darpariaethau machlud neu adolygu mewn perthynas â chynigion penodol yn cael eu hystyried ym mhob achos unigol.

Jane Hutt AC

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Hydref 2012